

SUT I NEWID BYD

Canllaw i weithredu cymdeithasoli ddisgyblion yng Nghaerdydd

Dyma Gwenno, mae hi'n hyrwyddwr hawliau plant ac eisiau gwneud Caerdydd yn lle gwell i gael eich magu. Yn y canllaw hwn byddwn yn dilyn ei thairth gweithredu cymdeithasoli!

Mae dros 50,000 o blant yng Nghaerdydd, mae gennych chi i gyd hawliau ac rydych chi i gyd yn bwysig. Yng Nghymru, mae gan bob oedolyn yn eich ysgol, y cyngor, a'r llywodraeth gyfrifoldeb i sicrhau bod eich hawliau'n cael eu bodloni.

Mae eich meddyliau, eich syniadau a'ch lleisiau yn bwysig. Fe wnaethon ni'r canllaw hwn fel y gallwch chi ddefnyddio'ch llais i wneud eich cymuned, eich gwlad a'r byd yn lle gwell. Trwy rannu eich syniadau a siarad â'r bobl iawn, gallwch wneud newidiadau mawr yn lleol ac yn fyd-eang.

Os ydych chi am wneud eich ysgol yn decach, eich cymuned yn lanach, gwneud newid i ddisgyblion yng Nghymru, neu ledænu neges ledled y byd, mae gennych chi'r gallu wneud pethau'n well.

Dyma sut rydyn ni'n mynd i fynd ati:

1. Nodi beth sydd angen newid.
2. Sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn ymwybodol o'r problemau rydych chi'n eu hwynebu.
3. Dysgu pwy sy'n gwneud penderfyniadau a gweithredu.
4. Dweud writh difm Caerdydd sy'n Dda i Blant am bopeth rydych chi'n ei wneud!

NODYN I'R ATHRO

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i eistedd ochr yn ochr â phecyn cymorth eiriolaeth teulentid UNICEF gan ei ategu gyda chyd-destun lleol. Bydd y lliw melyn hwn yn tynnu sylw at gysylltiadau uniongyrchol ag ymarferion yn y pecyn cymorth eiriolaeth teulentid.

GOFOD

Rydym am eich annog i fynegi eich barn yn fwy

LLAIS

Byddwch yn dysgu ffyrdd newydd o gyfleu eich syniadau

DYLANWAD

Byddwn yn eich helpu i gael yr ymatedd priodol gan oedolion

CYNULLEIDFA

Dysgwch pwy yw'r bobl sydd â'r pŵer i wneud newid

Helo, ni yw fim [Caerdydd sy'n Dda i Blant!](#) Ein gwaith ni yw rhoi hawliau plant wrth galon ein dinas. Rydyn ni yma i'ch helpu chi ac rydyn ni eisiau gwybod am bopeth rydych chi'n ei wneud!

Rhowch wybod i ni trwy ein tagio ni [#caerdyddsynddatblant](#) neu anfon e-bost atom yn caerdyddsynddatblant@caerdydd.gov.uk



Cam 1: Adeiladwch eich stori

Mae pob newid mawr yn dechrau gyda syniad bach. Yn y rhan hon, byddwn yn eich helpu i adeiladu eich stori. Pa newidiadau ydych chi am eu gweld? Pa syniadau sydd gennych chi? Eich stori chi yw hi, a nawr yw'r amser i'w rhannu!

Beth yw'r Broblem?

Edrychwch o'ch cwmpas — beth sydd ddim yn gweithio'n dda? Beth allai fod yn well? Ble allai eich hawliau fod mewn perygl? Gall fod yn rhywbeth yn yr ysgol, yn eich cymdogaeth, neu rywle rydych chi'n ymweld ag ef yn am. Efallai y gall eich grwpiau llais y disgybl helpu. Mae croeso i chi ofyn i'ch ffrindiau.

Ymarfer Pecyn Cymorth UNICEF archwilio

Bydd yr adran hon yn eich helpu i benderfynu beth hoffech chi ymgynrchu i'w newid - bydd angen i chi archwilio problem neu fater sy'n effeithio arnoch chi neu bobl ifanc yn eich cymuned.

ENGHRAIFET

Mae Gwenno'n yfu i fyny mewn byd sy'n mynd yn boethhach a phoethhach, bobman mae hi'n edrych mae llygredd a sbwrrel. Mae'r oedolion yn ei bywyd yn ceisio gwneud eu gorau, ond dyw hi ddim yn gallu gweld newid!




Dychmygwch fyd gwell

Nawr, dychmygwch sut gallai pethau fod yn well. Mewn byd deltrydol, efallai na fyddai'r broblem hon yn bodoli... pam? Weithiau gall problemau fod yn syml, weithiau'n fwy anodd. Beth yw achosion hyn? Meddyliwch am bawb dan sylw.

Ymarfer Pecyn Cymorth UNICEF meddwl

Bydd yr adran hon yn eich helpu i greu cynllun syml i gyrraedd eich nodau drwy osod camau clir, nodi pwy all helpu, troi problemau'n atebion, a sicrhau bod eich gweithredoedd yn cyd-fynd â'ch gweledigaeth.

Mae Gwenno eisiau gweld cymuned lannach, gyda llai o sbwrrel, llai o geir, a llai o wasiraff. Mae hi eisiau gofalu am fyd natur ac i oedolion boeni am y dyfodol maen nhw'n ei greu i'w plant.



Beth yw'r Cynllun?

Gall syniadau gwyech ddechrau'n fach, ond meddyliwch yn fawr! O sgwrs gyda ffrind i brosiect mawr i newid eich cymuned, mae pob gweithred yn cyfrif. Rydyn ni'n argymhell defnyddio'r Cynllun Eiriolaeth gan UNICEF a'i anfon atom pan fydd wedi'i gwblhau!

A ellir cyflawni hyn?: Edrychwch ar eich syniadau - beth sy'n teimlo'n iawn i chi? Ydyn nhw'n fach neu'n fawr? Ydyn nhw'n costio arian, neu am ddim? Beth allwch chi ei wneud heddiw, a beth allai gymryd bach mwy o amser?

Meddyliwch am yr Effaith: Mae gan bob syniad botensial. O godi ymwybyddiaeth gyda phrosiect creadigol i siarad yn uniongyrchol â phobl sy'n gwneud penderfyniadau, meddyliwch sut y gall eich gweithredoedd wneud gwahaniaeth.

Pwy all Helpu?: Dydych chi ddim ar eich pen eich hunan. O'ch athro i Caerdydd sy'n Dda i Blani a'ch cynghorydd lleol, mae pobl yn barod i gefnogi eich ymdrechion. Weithiau, gall dechrau sgwrs fod yn gam pwerus tuag at newid.

Ymarfer Pecyn Cymorth UNICEF Gweithredu

Bydd yr adran hon yn dangos i chi sut i weithredu fel rhan o'ch ymgyrch. Byddwch yn dysgu sut i greu negeseuon clir, dewis y ffyrdd gorau o rannu eich syniadau, a delio ag unrhyw heriau. Byddwch yn dysgu am wahanol dactegau fel defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ysgrifennu llythyrau, a threfnu digwyddiadau i wneud pobl yn ymwybodol o'ch achos ac ennill eu cefnogaeth. Fel hyn, gallwch ledaenu'ch neges yn effeithiol a chyflawni'ch nodau.

Mae gan Gwenno lawer o syniadau creadigol i sicrhau bod ei llais yn cael ei glywed. Gyda chefnogaeth oedolion yn ei hysgola'i cymuned, gall fod yn hyrwyddwr newid! Ar y dudalen nesaf, byddwn yn edrych ar rai o'i syniadau.

Ysgrifennwch at eich cynghorydd lleol:
Beth bynnag rydych chi'n ei wneud, dylai eich cynghorydd lleol fod eisiau clywed amdano. Dechreuwch sgwrs a'u cael nhw i gymryd rhan - maen nhw'n eich cynrychioli chi!




Llythyr at gyngorydd lleol yn gofyn am fwy o le i storio beiciau
yn hyrwyddo teithio llesol ac yn lleihau ôl troed carbon



Cynllunio ffair ysgol ar thema'r hinsawdd gall hyn ddyngu myfyrwyr a rhieni am gynaliadwyedd mewn ffordd hwyl

"Would the leader of the council come?"

Ysgrifennu a pherfformio drama am newid hinsawdd addysgu ac ysbrydoli gweithredoedd drwy greadigrwydd



"Dylem wahada swyddogion lleol sy'n gwneud penderfyniadau ac arweiniwr cynnedol"

Trefnu sesiwn casglu sbwriel gyda rhieni
mae camau uniongyrchol i lanhau ardaloedd lleol yn codi ymwybyddiaeth amgylcheddol




Gofyn am ginio ysgol fegan
Maen nhw'n lleihau effaith amgylcheddol ein prydau bwyd



"Os oes angen help arnom, gallwn Caerdydd sy'n Dda i blant"

Ymgrych taflenni mewn siopau lleol
ffurfio partneriaeth gyda busnesau i ledaenu ymwybyddiaeth o arferion amgylcheddol




Cam 2: Gwireddu'r Syniad

Nawr bod gennych stori a rhai syniadau ar sut i wneud newid, mae'n amser gwireddu'r syniadau 'na! Yn y rhan hon, byddwn ni'n dilyn Gwenno ac yn edrych ar wahanol weithredoedd y meddyliodd hi a'i chyd-ddisgyblion amdany'n nhw. Cofiwch mai dim ond enghreifftiau yw'r rhain. Gallwch chi ddewis unrhyw bwnc ac unrhyw weithredoedd.

Mae pob gweithred yn cael ei effaith ei hun, a gyda'i gilydd, gallan nhw wneud gwahaniaeth mawr.

Gwneud cerflun allan o boteli plastig
ffordd fwy creadigol o rannu ein neges ein bod ni'n poeni am sbwriel



"Efallai y bydd busnes lleol yn helpu i arddangos ein gwaith celf"

Cychwyn deiseb i'r Senedd i wahardd plastig untro
lleihau gwastraff plastig



Rhaglen arbed ynni ysgol
lleihau'r defnydd o ynni, arbed arian i'r ysgol a dysgu arferion da



Prosiect Plannu Coed
dechrau'n lleol ac yna ceisio cael y llywodraeth i gymryd rhan



Protest heddychlon dros weithredu ar yr hinsawdd
tynnw sylw'r cyhoedd a'r cyfryngau at faterion hinsawdd. Efallai y gallwch ofyn i ysgolion eraill ymuno â ni hefyd



Byddwch yn Hwblyg: Efallai y bydd eich cynllun yn newid wrth i chi ddyngu mwy, ac mae hynny'n iawn! Mae'r cynlluniau gorau'n addasu. Daliwch ati i feddlw am beih sy'n gweithio, beih sydd ddim, a sut gallwch chi symud 'mlaen.

Mae Gweithredu'n Dod ar Sawl Ffur: O boster, cerdd, cyflwyniad, neu ddeiseb, mae eich llais yn bwerus. Defnyddiwch ef yn y ffordd sy'n teimlo'n iawn i chi, a phetidiwch â bod ofn rhoi cynnig ar wahanol ddulliau neu nifer o ddulliau.

Rhanwch Eich Prosiectau: Gofynnwch i'ch athro bostio lluniau neu fideos ar gyfryngau cymdeithasol eich ysgol. Pan fyddwch chi'n ei bostio, defnyddiwch #CaerdyddSynDdaIblant fel y gallwch rannu eich gwaith gwyb! Hefyd, soniwch am eich cynghorydd lleol yn eich postiad!


Cam 3: Ceisiwch gwrrdd â swyddogion lleol sy'n gwneud penderfyniadau a gweithredwch!

Yng Nghaerdydd, mae 'na lawer o oedolion â swyddi pwysig sy'n helpu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ein bywydau. Bydd y rhan hon o'n canllaw yn eich cyflwyno i'r bobl hyn ac yn esbonio ychydig am beth maen nhw'n ei wneud. Mae Cyngor Caerdydd yn ddim mawr o floedd o bobl sy'n gofalu am ein dinas, Caerdydd. Yn union fel y mae gan eich ysgol athrawon a staff sy'n helpu i sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth, mae Cyngor Caerdydd yn gwneud hynny ar gyfer ein dinas gyfan. Maent yn gweithio mewn llawer o feysydd, gan gynnwys diwylliant, addysg, tai, trafniadaeth, helpu teuluoedd, a'r amgylchedd.

Mae'r cyngor yn cael ei redeg gan filoedd o weithwyr ond yn cael ei arwain gan "gyngorwyr" - mae'r cyngorwyr hyn yn bobl arferol sy'n cael eu hethol gan y cyhoedd. Maen nhw'n dewis y cyfeiriad ac yn gwneud y penderfyniadau pwysig.

Os yw eich problem yn ymwneud â phethau sy'n digwydd yng Nghaerdydd, byddai cysylltu â chynghorydd yn syniad da! Ond pa un...

Strwythur Cyngor Caerdydd



Weithiau mae'n syniad da ysgrifennu at eich cynghorydd lleol A'R Aelod cabinet perthnasol, oherwydd mae'n debyg bod newid sy'n dda i'ch symuned chi hefyd yn dda i gymunedau eraill yng Nghaerdydd

Yr Arweinydd ac Aelodau Cabinet:
Mae Arweinydd y Cyngor yn cael ei ethol gan yr holl gyngorwyr. Mae'r arweinydd wedyn yn dewis grŵp o gyngorwyr eraill i ofalu am bethau pwysig fel newid hinsawdd, addysg a thrafnidiaeth - nhw yw'r 'cabinet'. Maen nhw'n helpu i lunio cynlluniau ac amcanion y cyngor sy'n effeithio ar y ddinas gyfan. Dysgwch pwy ydyn nhw yma!

Os yw eich problem yn ymwneud â rhywbeth sy'n effeithio ar bob plentyn yng Nghaerdydd, gallai ysgrifennu at yr aelod cabinet cywir helpu i gyflawni newid!

Cynghorwyr Lleol Caerdydd:
Dyma'r bobl sy'n helpu i ofalu am ein hardaloedd lleol. Maen nhw wedi cael eu dewis gan drigolion lleol mewn etholiadau lleol, a nhw yw'r bobl gyntaf i gysylltu â nhw am broblemau a phryderon lleol. Yng Nghymru, mae cynghorwyr yn pleidleisio ar gylluniau cyngor pwysig - mae'r cyngor yn cael ei arwain ganddyn nhw. Dysgwch pwy yw eich cynghorwyr lleol, ysgrifennwch atyn nhw a'u gwahoddi i'ch ysgol!

Os yw'r broblem yn llai ac yn effeithio ar bobl yn eich ardal chi yn bennaf, gallai ysgrifennu at eich cynghorydd lleol fod yn lle da i ddechrau!

Swyddogion Penderfyniadau Pwysig Eraill

Gwaith rhai pobl yng Nghaerdydd yw cynrychioli barn ein dinas yng Nghymru ac ar draws y DU gyfan. Mae'r bobl hyn sy'n gwneud penderfyniadau yn gweithio yn Senedd Cymru a Senedd y DU. Maen nhw'n helpu i wneud penderfyniadau mawr sy'n effeithio nid yn unig ar Gaerdydd, ond ar Gymru gyfan neu hyd yn oed y Deyrnas Unedig gyfan.

Beth yw'r Senedd?



Mae'r Senedd wedi'i ffurfio o grŵp o bobl o'r enw Aelodau o'r Senedd sy'n cael eu hethol i wneud penderfyniadau a chreu cyfreithiau i Gymru. Mae'r Senedd yn gofalu am bethau pwysig sy'n effeithio ar Gymru gyfan, fel ysgolion, gofal iechyd, a'r amgylchedd. Maen nhw'n gwneud cyfreithiau yng Nghymru a all newid sut mae pethau'n cael eu gwneud yn eich cymuned ac ar draws y wlad.

Os yw eich problem yn effeithio ar blant ledled Cymru, fel rheolau am ysgolion neu wasanaethau iechyd, gall Aelod o'r Senedd helpu. Maen nhw'n gweithio ar benderfyniadau mawr sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru, nid dim ond Caerdydd.


Beth yw Senedd y DU?

Senedd y DU yw lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, sy'n cynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n cynnwys pobl eihaleidig o'r enw Aelodau Seneddol, sy'n helpu i greu deddfau ac yn penderfynu sut i wario arian ar bethau pwysig fel iechyd, amdaliffyn a'r amgylchedd.

Os yw'ch problem yn ymwneud â rhywbeth sy'n effeithio ar bob rhan o'r DU, fel cyfreithiau llygredd, trafnidiaeth a diogelwch, dewch o hyd i'ch Aelod Seneddol lleol a chysylltwch â nhw!



Cymerwch Gamau Uniongyrchol!



Cofiwch, nid siarad â phobl sy'n gwneud penderfyniadau yw'r unig ffordd i wneud gwahaniaeth:
Gwnewch Newidiadau Eich Hun: Dechreuwch brosiect, glanhewch eich parc, neu plannwch goed.

Gweithiwch gyda Busnesau Lleol a Grwpiau Cymunedol: Weithiau, mae'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch chi rownd y gornel. Ffurfiwch bartneriaeth â busnesau lleol neu ymunwch â grwpiau cymunedol i gael cymorth ychwanegol.



Adborth gan oedolion...

Pan fyddwch yn rhannu eich syniadau gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau fel cynghorwyr lleol, Aelodau o'r Senedd, neu Aelodau Seneddol, mae'n bwysig cofio efallai na fyddan nhw bob amser yn gallu helpu neu'n cytuno â'ch awgrymiadau. Weithiau, mae'n rhaid iddyn nhw wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth neu gyfrifdebau eraill.

Ond peidiwch â digalonni! Hyd yn oed os na allan nhw helpu neu os nad ydyn nhw'n cytuno, byddan nhw'n dal i wrando ar eich llais. Y peth pwysicaf yw eich bod wedi cymryd yr amser i godi llais a rhannu eich syniadau. Bob tro rydych chi'n chi'n gwneud hymny, rydych chi'n helpu i wneud gwahaniaeth. Dyma sut mae democratiaeth yn gweithio—mae gan wahanol bobl farn wahanol, ac weithiau mae'n cymryd amser i ddod o hyd i'r atebion gorau.

Cam 4: Rhowch wybod i ni!

Mae **Caerdydd** sy'n **Dda** i **Blant** yma i'ch cefnogi chi! Rhowch wybod i ni beth rydych chi wedi'i gynllunio fel y gallwn ei rannu â phawb! Os hoffech chi gael help, gallwn ni eich cysylltu â'r swyddogion penderfyniadau cywir a helpu i wneud eich llais yn uwch.

Pwy i siarad â nhw: Os nad ydych chi'n siŵr pwy all helpu, gallwn ni eich anfon yn y cyfeiriad cywir.

Eiriolaeth Hawliau Plant: Rydyn ni'n defnyddio pŵer hawliau plant i gefnogi eich mentrau a sicrhau bod pobl sy'n gwneud penderfyniadau yn gwrando ar beth sydd ei angen arnoch chi.

Rhannwch Eich Gweithredoedd: Rhowch wybod i ni beth rydych chi'n ei wneud. O brosiect cymdeithasol i fenter fach, gallwn ni helpu i rannu eich stori. Gall hyn ysbrydoli disgyblion eraill - gyda'ch gilydd rydych chi'n rhan o fudiad hawliau plant dros newid! Gallwch ein tagio ni gyda #caerdyddsynddaiblant, anfon neges atom, neu ein cynnwys ni mewn e-byst gan ddefnyddio caerdyddsynddaiblant@caerdydd.gov.uk